# SL(6)660 – Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) a elwir yn gyffredin yn Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2025.

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau net nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Mae Adran 31(1) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o 5 mlynedd rhwng 2016 a 2050.

Mae Rheoliad 2 yn pennu’r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2031-35 fel ei bod wedi’i chyfyngu ar gyfartaledd o 73% islaw’r llinell sylfaen.

Cyn gosod cyllidebau carbon mewn rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a dwyn y cyngor i ystyriaeth. Ym mis Mai 2025, rhoddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei gyngor i Weinidogion Cymru ar lefel pedwerydd cyllideb carbon Cymru ar gyfer y cyfnod pum mlynedd rhwng 2031 a 2035 (“Cyllideb Garbon 4”). Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai diben y rheoliadau hyn yw derbyn y lefel a argymhellir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd a phennu Cyllideb Garbon 4 ar gyfartaledd o 73% islaw’r llinell sylfaen.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 2, defnyddir sawl term sydd wedi'u diffinio fel termau ar gyfer Rhan 2 o Ddeddf 2016, sef Deddf wreiddiol y Rheoliadau hyn, gan gynnwys “cyllideb garbon”, “cyfnod cyllidebol” a “gwaelodlin”. Fodd bynnag, nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn

cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978, sydd

yn darparu bod gan ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd ganddynt yn y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth oddi tani. Fel y nodwyd yn Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 4.12(1),

> "*Gan hynny, dylai is-offeryn Cymreig gynnwys darpariaeth bendant lle bynnag y bwriedir i ymadrodd gario ystyron sy'n dod o'r ddeddfwriaeth sylfaenol*".

O ganlyniad, ni fydd gan y termau hynny'r un ystyr diffiniedig yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ag sydd ganddynt yn Rhan 2 o Ddeddf 2016, yn absenoldeb darpariaeth dehongli benodol o'r fath.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.